



Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi	1
Hanes adolygu a chymeradwyo	3
Cyflwyniad	3
Rolau a chyfrifoldebau	4
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi	4
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	5
Egwyddorion cydweithredu	6
Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd	6
Cyfnewid Gwybodaeth	6
Adolygiadau ac Arolygu	7
Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau	9
Llywodraethu	9
Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu	9
Llofnodwyd.....	10
Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth	11
Atodiad B – Manylion Cyswllt.....	12
Atodiad C - Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio (OPCAT)	13
Atodiad Ch – Protocol ar gyfer Rhannu Gwybodaeth	15
Cyfraith Statudol a Chyfraith Gyffredin Berthnasol	15
Sut y caiff gwybodaeth ei rhannu	15

Hanes adolygu a chymeradwyo

Fersiwn	5.0
Dyddiad creu	Awst 2020
Awduron	AGIC: Joseph Wilton Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi: Tania Osborne
Dyddiad cytuno	Mawrth 2021
Cytunwyd arni'n ffurfiol gan	AGIC: Alun Jones Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi: Charlie Taylor
Dyddiad adolygu	

Cyflwyniad

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw pennu fframwaith i gefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o'r broses o oruchwyllo a chraffu'n effeithiol ar iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau lle cedwir pobl yng Nghymru. Mae ein harolygiad ar y cyd yn hyrwyddo diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel, ac yn cefnogi AGIC i gynnal ei gyfrifoldebau rheoleiddiol.
2. Dim ond i'r gwaith o reoleiddio a chraffu ar ofal iechyd mewn carchardai yng Nghymru y mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn berthnasol. Nid yw'n drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC nac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol rwymol; ei ddiben yw diffinio'r cydgytundeb rhwng y ddau sefydliad, lleihau baich arolygu a nodi camau gweithredu cyffredin i wella canlyniadau iechyd a llesiant pobl a gedwir yng ngharchardai a Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc yng Nghymru.
3. Ar hyn o bryd, nid yw'r trefniadau cydweithio a bennir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cwmpasu darparwyr iechyd preifat yn yr ystâd carchardai preifat. Nid yw AGIC yn rheoleiddio nac yn cofrestru unrhyw ddarpariaeth gofal iechyd preifat mewn carchardai, gan ei bod wedi'i heithrio o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Mae cyfrifoldebau arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cynnwys pob darpariaeth iechyd, beth bynnag fo'i statws cofrestru, boed yn ddarpariaeth breifat neu'n ddarpariaeth y GIG.
4. Fel rhan o'r gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gellir llunio cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth, neu brotocolau cydweithio).

5. Caiff arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac AGIC eu cynnal yn unol â rhwymedigaethau'r DU fel parti i'r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn arteithio a thriniaethau neu gosbau creulon, annynol neu ddiraddiol eraill (OPCAT). Mae OPCAT yn ei gwneud yn ofynnol i bob gwladwriaeth sy'n barti ddynodi Dull Atal Cenedlaethol annibynnol, sy'n monitro lleoliadau lle cedwir pobl at ddiben atal arteithio a chamdriniaeth. Carchardai Ei Mawrhydi ac AGIC yn aelodau o Ddull Atal Cenedlaethol y DU, a gydlynir gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (Atodiad C).

Rolau a chyfrifoldebau

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

6. Arolygiaeth annibynnol yw Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, ac mae ei Phrif Arolygydd wedi'i benodi gan y Goron. Mae pwerau'r Prif Arolygydd yn deillio'n bennaf o adran 5A Deddf Carchardai 1952. Mae'r Prif Arolygydd yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar driniaeth ac amodau carcharorion a'r rhai a gedwir yn nalfeydd y llysoedd yng Nghymru a Lloegr a mewnfudwyr dan gadw yn y Deyrnas Unedig. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd yn arolygu: dalfeydd yr heddlu a dalfeydd tollau Llu'r Ffiniau gydag Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS); canolfannau hyfforddi diogel gydag Ofsted. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arolygu rhai cyfleusterau cadw milwrol drwy wahoddiad, yn ogystal â charchardai yng Ngogledd Iwerddon ac awdurdodaethau eraill sydd â chysylltiadau â'r DU, fel Ynys Manaw. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn hyrwyddo'r cysyniad o "sefydliadau iach", lle mae'r staff yn gweithio'n effeithiol i gefnogi carcharorion ac unigolion dan gadw er mwyn lleihau nifer yr achosion o aildroeddu a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n cael eu cadw, ac i'r cyhoedd.
7. Fel rhan o'r cyfrifoldebau hyn, mae gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ddyletswydd statudol i arolygu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau mewn dalfeydd. Mae gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi glinigwyr cofrestredig sy'n arolygu gofal iechyd. Mae rhaglen arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cynnwys arolygiadau llawn, ymweliadau craffu ac Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd. Mae'r fframwaith yn cynnwys disgwyliadau iechyd, sy'n unol â'r safonau iechyd a osodwyd gan gyrff proffesiynol a rheoleiddiol a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Gellir dod o hyd i fanylion am fframwaith, dull a methodoleg gyffredinol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn:
<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/about-our-inspections/>
8. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arolygu mewn partneriaeth â'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Yng Nghymru, mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd yn arolygu dalfeydd y llysoedd, dalfeydd yr heddlu (ar y cyd â HMICFRS) a chanolfannau hyfforddi diogel (ar y cyd ag Estyn).

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

9. AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
 - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
 - Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
 - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
 - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
 - Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008; a
 - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.
10. Mae [Cynllun Strategol](#) AGIC yn disgrifio'r blaenoriaethau, sef:
 - **Rhoi sicrwydd:** cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal;
 - **Hybu gwelliant:** annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da; a
 - **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.
11. Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym.
12. Mae AGIC yn gyfrifol am arolygu ansawdd a diogelwch gofal cleifion a gomisiynir ac a ddarperir gan sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru. Mewn perthynas â charchardai, mae ffocws AGIC yn ymwneud ag ansawdd a safonau diogelwch a threfniadau llywodraethu'r byrddau iechyd yng Nghymru ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd mewn carchardai.
13. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath.

Egwyddorion cydweithredu

14. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yw y caiff eu cydberthynas waith ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:
 - Parch at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall: Mae AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio â'i gilydd;
 - Arolygu a rheoleiddio effeithiol;
 - Yr angen i wneud penderfyniadau sy'n hybu iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel, ac sy'n diogelu ac yn hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion;
 - Bod yn gwbl agored a sicrhau tryloywder rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol nac yn briodol;
 - Yr angen i ddefnyddio adnoddau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynw a rhannu gwybodaeth yn briodol;
 - Yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad; ac
 - Ymrwymiad AGIC i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o orgyffwrdd neu fylchau yn y fframwaith rheoleiddio a chyfrifoldebau rheoleiddio.
15. Mae AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd yn ymrwymedig i fabwysiadu dulliau arolygu a rheoleiddio tryloyw, atebol, cymesur, cyson ac wedi'u targedu (egwyddorion gwell rheoleiddio).

Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd

Cyfnewid Gwybodaeth

16. Bydd cydweithio rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Bydd disgwyl cyfnewid gwybodaeth yn yr achosion canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
 - Lle mae AGIC neu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn nodi pryderon am iechyd a llesiant y cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai a'r gofal a roddir i unigolion dan gadw yn y ddalfa
 - Digwyddiadau difrifol, marwolaethau neu achosion a fu bron â digwydd
 - Digwyddiadau neu bryderon diogelu
 - Lle y byddai ymateb amlasiantaeth sydd wedi'i gydlynw yn fuddiol er mwyn lleddfu pryder.
17. Mewn achosion o'r fath, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur, a chaiff y wybodaeth ei rhannu'n gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl. Caiff y manylion cyswllt yn Atodiad B eu defnyddio i godi a rhannu pryderon.
18. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac unrhyw brotocol cydweithio a all

gael ei ddatblygu, yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, adran 76 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, Deddf Safonau Gofal 2000, a holl ddeddfwriaethau AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sy'n ymwneud â'r materion hyn, a'u Codau Ymarfer, fframweithiau neu bolisiâu priodol eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion yn ymwneud â gwybodaeth.

19. Mae AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb.

Adolygiadau ac Arolygu

20. Yn ogystal â chyfnewid gwybodaeth, gall AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ymgymryd ag adolygiadau neu arolygiadau ar y cyd o unrhyw wasanaethau iechyd mewn carchardai y mae gan y ddau ohonynt gyfrifoldebau amdanynt. Caiff y fath arolygiadau ar y cyd eu cynnal gan y ddau sefydliad, gan gadw eu pwerau, eu swyddogaethau a'u gofynion adrodd statudol ar wahân. Nid yw'r arolygiadau ar y cyd hyn yn atal y naill sefydliad na'r llall rhag ymgymryd ag arolygiadau o wasanaethau iechyd mewn carchardai yn unigol.
21. Rhaglen o arolygiadau dirybudd sydd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn bennaf. Bydd yn gosod isafswm amllder ar gyfer arolygu pob math o sefydliad ond o fewn hyn, yn amseru arolygiadau mewn ffordd sy'n llai amlwg i sefydliadau ac sy'n dyrannu adnoddau mewn modd mwy hyblyg, ar sail gwybodaeth a ystyriwyd yn ofalus ac asesiad risg rhagweithiol. Bydd pob arolygiad llawn yn cynnwys asesiad o gynnydd o ran rhoi'r argymhellion blaenorol ar waith
22. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn rhoi gwybod i AGIC am y lleoliadau a fydd yn destun arolygiadau a gynlluniwyd dirybudd yng Nghymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond o leiaf dri mis o flaen llaw. Mae AGIC yn cytuno i gadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol. Bydd AGIC yn cytuno i aelod addas o staff AGIC fod ar gael ar y dyddiad hwn i fynd gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i'r arolygiad.
23. Bydd aelod o staff AGIC yn anfon gwybodaeth berthnasol at arolygydd iechyd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, yn unol â'r fframweithiau perthnasol, cyn yr ymweliad os bydd yr amserlenni'n caniatáu.
24. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arwain yr arolygiadau ac yn adrodd ar y canlyniadau iechyd i garcharorion. Bydd AGIC yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a fydd yn mynd gyda'r Arolygiaeth ar arolygiadau rheolaidd o garchardai yng Nghymru. Os felly, bydd AGIC yn darparu staff i ymuno er mwyn canolbwyntio ar elfen llywodraethu clinigol yr arolygiad. Bydd staff AGIC yn rhoi adborth i arolygydd iechyd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar y trefniadau llywodraethu clinigol, yn unol â Safonau Gofal Iechyd

Llywodraeth Cymru wedi'u mapio i [ddisgwyliadau iechyd](#) Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer oedolion a'i [disgwyliadau iechyd ar gyfer plant](#).

25. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn anfon copi o bob adroddiad arolygu drafft i AGIC ar ôl i arolygiad ar y cyd o garchar yng Nghymru ddod i ben, fel y gall yr aelod o staff AGIC egluro unrhyw wallau ffeithiol yn yr adroddiadau, lle y bo'n berthnasol. Bydd hyn yn unol â'r amserlenni cyhoeddi: tua wyth wythnos ar ôl arolygiad llawn a thair wythnos ar ôl ymweliad craffu. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd yn anfon adroddiadau drafft at Gyfarwyddwr Grŵp Carchardai Cymru a/neu Gyfarwyddwr Gweithredol Cymru, a Llywodraethwr/Cyfarwyddwr y carchar.
26. Ar yr un pryd, bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn anfon drafft terfynol (dan embargo) o'r adroddiad at Gyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio AGIC, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Carchardai ac Uned Frifio'r Gwasanaeth Carchardai neu Gyfarwyddwr Gweithredol Cymru a/neu Gyfarwyddwyr perthnasol eraill Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi cyn ei gyhoeddi.
27. Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr Grŵp Carchardai Cymru a Llywodraethwr/Cyfarwyddwr y carchar lunio cynllun gweithredu o fewn tri mis i gyhoeddi adroddiadau arolygu llawn, a'i ddychwelyd at Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi, gan anfon copi at Gyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio AGIC.
28. Lle bydd yr adroddiad arolygu llawn terfynol yn nodi materion sy'n ymwneud â'r bwrdd iechyd, bydd Cyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am gomisiynu gofal iechyd yn y carchar lunio cynllun gweithredu o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad, a'i anfon at Bennaeth Arolygu Gofal Iechyd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Bydd copi o'r llythyr a anfonwyd at y bwrdd iechyd yn gofyn iddo lunio cynllun gweithredu a chopi o'r cynllun yn cael eu hanfon at Gyfarwyddwr Grŵp Carchardai Cymru.
29. Bydd AGIC yn cynnal adolygiadau o fyrddau iechyd yn unol â'i rhaglen gyhoeddedig. Bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth berthnasol o'r adolygiadau hyn ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi fel y nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Bydd y wybodaeth hon yn cwmpasu sut mae'r bwrdd iechyd yn bodloni disgwyliadau ac yn cyrraedd y safonau gofal iechyd i Gymru wrth ddarparu/comisiynu gwasanaethau gofal iechyd mewn carchardai.
30. Mae'r ddau sefydliad wedi rhoi rhaglen o adolygiadau thematig ar waith. Gall y rhain fod yn berthnasol i'r sefydliad arall. Os a phan fydd y rhain yn digwydd, bydd y naill sefydliad yn rhoi gwybod i'r llall am y cynlluniau ar gyfer yr adolygiad hwn, ac yn rhoi'r cyfle iddo ddarparu mewnbwn a chymorth.

Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

31. Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau arfaethedig i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau a chynigion drafft.
32. Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ymrwymo i gydweithio, lle y bo'n briodol, i lunio gohebiaeth neu ddatganiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.
33. Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac ni fyddant yn ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Llywodraethu

34. Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Disgrifir y cyswllt hwn, ac unrhyw waith mewn partneriaeth, yn Atodiad A.
35. Dylid cynnal cyfarfodydd rhwng cydweithwyr perthnasol yn y ddau sefydliad i drafod gwybodaeth, polisiâu a materion gweithredol sydd o ddiddordeb i'r ddau sefydliad pan fo'n briodol; o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Ceir manylion cyswllt yr unigolion perthnasol ar lefel weithredol yn y ddau sefydliad yn Atodiad B.
36. Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ei ddatrys ar lefel weithredol. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys unrhyw anghydfod o fewn amser rhesymol.

Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dechrau ar ddyddiad y llofnodion isod.

37. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â chydberthynas waith y ddau sefydliad.
38. Nid oes terfyn amser i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau mewn grym oni fydd angen newid yr egwyddorion a ddisgrifiwyd neu os byddant yn amherthnasol bellach. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob blwyddyn gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir

yn Atodiad B, ond gellir hefyd ei adolygu ar fyrder ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

Llofnodwyd



Alun Jones

Prif Weithredwr Dros Dro
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 16 Ebrill 2021



Charlie Taylor

Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Dyddiad: 27 Ebrill 2021

Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol rhannu gwybodaeth a digwyddiadau, mae rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi:

Ymgysylltu rheolaidd

Er mwyn cefnogi'r ddau sefydliad i gydweithio, bydd y ddau'n cyfarfod bob chwe mis rhwng rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac unrhyw unigolion perthnasol eraill. Diben y cyfarfodydd hyn fydd gwneud y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth am fyrddau iechyd a darparwyr iechyd carchardai;
- Trafod pryderon ac ymchwiliadau parhaus;
- Rhannu canfyddiadau o adolygiadau diweddar a pharhaus;
- Adolygu a myfyrio ar arolygiadau ar y cyd diweddar;
- Cynnig cyfle i adolygu a diweddarau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn;
- Adolygu adolygiadau thematig parhaus neu bosibl;
- Dyraniadau rhaglen.

Rhannu Gwybodaeth

Yn ogystal â'r ymgysylltu rheolaidd, bydd y ddau sefydliad yn rhannu dogfennau ac adroddiadau sy'n berthnasol i waith y naill a'r llall ohonynt â'i gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddiadau blynyddol;
- Cynlluniau gweithredol a chynlluniau busnes;
- Cynlluniau arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru;
- Adroddiadau adolygu AGIC;
- Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o gelloedd y llysoedd

Atodiad B – Manylion Cyswllt

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Llywodraeth Cymru Parc Busnes Rhyd-y-car Merthyr Tudful CF48 1UZ	3rd Floor, 10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU
Ffôn: 0300 062 8163	Ffôn: 0207 340 0500

Bydd swyddogion cyswllt enwebedig yn AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi fel a ganlyn:

Prif Swyddogion Gweithredol	
Alun Jones <i>Prif Weithredwr Dros Dro</i>	Charlie Taylor <i>Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi</i>
Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth	
Joseph Wilton <i>Pennaeth Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg</i> joseph.wilton@gov.wales Ffôn: 0300 025 2663	Tania Osborne <i>Pennaeth Arolygiadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol</i> tania.osborne@hmiprisons.gov.uk Ffôn: 0207 340 0500
Atgyfeirio pryderon	
hiw.concerns@gov.wales Ffôn: 0300 062 8163	hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk Ffôn: 0207 340 0500
Rhannu Gwybodaeth	
hiw.pim@gov.wales	tania.osborne@hmiprisons.gov.uk

Atodiad C - Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio (OPCAT)

1. Mae'r arolygiadau a'r gwaith monitro a wneir gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac AGIC yn rhan o'r dull a ddefnyddir gan y DU i fodloni ei rhwymedigaethau fel parti i'r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a Thriniaethau neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) eraill. Mae OPCAT yn cydnabod bod unigolion a gedwir yn arbennig o agored i gael eu cam-drin ac y dylai ymdrechion i atal y gamdriniaeth honno ganolbwyntio ar atal drwy system o ymweliadau annibynnol rheolaidd â lleoliadau lle cedwir pobl.

Pan gymeradwyodd y DU OPCAT yn 2003, derbyniodd gyfrifoldeb y Wladwriaeth i wneud y canlynol:

“set up, designate or maintain at the domestic level one or several visiting bodies for the prevention of torture and other cruel, inhuman or degrading treatment or punishment”

Y cyrff domestig sy'n ymweld ac sy'n cyflawni'r rhwymedigaethau hynny sy'n ffurfio'r Dull Atal Cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r Dull Atal Cenedlaethol fod yn annibynnol ac mae'n rhaid bod digon o adnoddau ar gael i sicrhau'r gallu a'r arbenigedd sydd eu hangen i ddarparu arolygiadau effeithiol o gyfleusterau cadw.¹ Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac AGIC wedi'u dynodi'n swyddogol yn rhan o'r Dull Atal Cenedlaethol, a gydlynir gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Bydd y ddau ohonynt yn cyflawni eu gwaith yn unol â'r gofynion ar gyfer dulliau atal cenedlaethol a bennir yn OPCAT a chan Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Arteithio.

Mae'n rhaid i'r dull atal cenedlaethol wneud y canlynol:

- cynnal archwiliadau rheolaidd o driniaeth pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau lle cedwir pobl;
- gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau unigolion dan gadw;
- cyflwyno cynigion ac arsylwadau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth ddrafft bresennol.

Mae'n rhaid bod gan y dull atal cenedlaethol:

- fynediad i wybodaeth am nifer y bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, nifer y lleoliadau lle cedwir pobl a'u lleoliad;
- mynediad i wybodaeth am driniaeth ac amodau unigolion dan gadw;
- mynediad i bob lleoliad lle cedwir pobl;

¹ Gweler adroddiad blynyddol cyntaf yr Is-bwyllgor ar Atal Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (mis Chwefror 2007 i fis Mawrth 2008), CAT/C/40/2 (14 Mai 2008).

- cyfle i gynnal cyfweiliadau preifat ag unigolion dan gadw ac unrhyw unigolyn perthnasol arall.

Atodiad Ch – Protocol ar gyfer Rhannu Gwybodaeth

1. Diben rhannu gwybodaeth yw galluogi AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i gael darlun mor llawn â phosibl o berfformiad, gan osgoi ceisiadau dyblyg am wybodaeth am gyrff a arolygir. Saif y protocol hwn yng nghyd-destun cyfraith, dyletswyddau a chodau ymarfer perthnasol. Nid oes dim ynddo sy'n drech na rhwymedigaethau pob sefydliad i barchu gwybodaeth gyfrinachol, neu lle mae wedi'i ddarparu ar yr amod na fydd yn cael ei rannu ymhellach; yn yr un modd, nid oes dim yn y protocol hwn a ddylai atal y naill gorff na'r llall rhag darparu gwybodaeth i bartion eraill (fel rheoleiddwyr proffesiynol) lle y bo'n briodol i ddiogelu carcharorion, ymwelwyr, y staff neu'r cyhoedd.

Cyfraith Statudol a Chyfraith Gyffredin Berthnasol

2. Mae AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cydnabod bod y canlynol yn berthnasol i rannu gwybodaeth:
 - Deddf Diogelu Data 1998
 - Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
 - Deddf Hawliau Dynol 1998
 - Dyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gyffredin
 - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Sut y caiff gwybodaeth ei rhannu

Rhannu gwybodaeth yn systematig:

3. Bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi am ganfyddiadau sy'n gysylltiedig â'i harolygiadau a'i hymchwiliadau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â Byrddau Iechyd Lleol fel comisiynwyr gofal iechyd mewn carchardai yng Nghymru. Gwneir hyn yn y ffyrdd canlynol:

Adolygiadau Clinigol AGIC o Farwolaethau mewn Carchardai:

4. Ers 1 Ebrill 2008, mae AGIC wedi ymgymryd ag elfen adolygu clinigol ymchwiliadau i farwolaethau mewn carchardai ar ran yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.
5. Mae'r Ombwdsmon hwn yn rhannu ei adroddiadau ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi cyn arolygiad. Lle y bo'n briodol, bydd AGIC yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol arall, a all fod yn berthnasol i rôl arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

Rhannu gwybodaeth ar hap:

6. Bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o'i rhaglen o arolygiadau ac unrhyw ymchwiliadau drwy sicrhau bod Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn gweld yr argymhellion sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau yn gynnar, ar ôl iddynt gael eu dilysu. Bydd y dulliau ar gyfer gwneud hyn drwy'r pwyntiau cyswllt a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

Gwybodaeth Gorfforaethol AGIC:

7. Bydd AGIC yn sicrhau bod Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cael ei gwybodaeth gorfforaethol fel y bo'n briodol, gan gynnwys:
- cylchlythyr;
 - Adroddiad Blynnyddol AGIC;
 - Adroddiadau blynnyddol ar gyfer byrddau iechyd/ymddiriedolaethau;
 - cynllun gweithredol.

Arolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o gelloedd dalfeydd y llysoedd:

8. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn hysbysu AGIC am ei bwriad i arolygu celloedd y llysoedd yng Nghymru ac yn darparu copi o'r adroddiad terfynol i AGIC.

Gwybodaeth Gorfforaethol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi:

9. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn rhannu ei chynllun busnes a gwybodaeth gorfforaethol arall ag AGIC fel y bo'n briodol.